Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Harri Tudur/Henry Tudor School
# Penfro
# Sir Benfro
# SA71 4RL

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Harri Tudur/Henry Tudor School

Mae Ysgol Harri Tudur / Henry Tudor School yn ysgol gyfun gymysg, cyfrwng Saesneg, 11-18 oed, a arferai ddwyn yr enw, Ysgol Penfro. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref Penfro ac mae disgyblion o ardal Penfro, Doc Penfro a'r pentrefi o amgylch yn mynychu'r ysgol.

Mae nifer y disgyblion wedi gostwng ychydig ers yr arolygiad diwethaf yn 2012. Ar hyn o bryd, mae 1,167 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 101 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae tua 26% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 16.4% ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae tua 25% o'r disgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae gan ryw 44% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan ychydig dros 3% ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ddwy ganran hyn uwchlaw cyfartaleddau Cymru, sef 22.9% a 2.2% yn y drefn honno. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau dysgu i ddisgyblion ag awtistiaeth.

Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn, Prydeinig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg mamiaith. Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd yn 2017. Mae'r tîm arwain hefyd yn cynnwys wyth pennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes yr ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Harri Tudur / Henry Tudor School yn cynnig amgylchedd cefnogol a gofalgar, sy’n cael effaith gadarnhaol ar fwyafrif ei disgyblion. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi bod trwy gyfnod o newid sylweddol yn sgil penodi pennaeth newydd yn 2017 a symud i adeilad newydd yn 2018. Mae’r pennaeth wedi rheoli’r pontio o safle’r hen ysgol i’r adeilad newydd yn llwyddiannus ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer symud yr ysgol ymlaen, yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer safonau ac ymddygiad.

Mae llawer o athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda disgyblion ac mae gan leiafrif ohonynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o leiaf mewn gwersi, er bod perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi bod yn wan ac islaw’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol ac mewn gwersi. Fodd bynnag, caiff ymddygiad gwael effaith niweidiol ar brofiadau dysgu mwyafrif y disgyblion ac, o ganlyniad, ar y safonau a gyflawnant. Nid yw presenoldeb yn cymharu’n dda â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg.

Ar y cyfan, nid yw arweinwyr yn monitro safonau cyflawniad a lles yn ddigon manwl ac nid ydynt yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn y meysydd hyn yn ddigon effeithiol i ysgogi gwelliant.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth

A2 Gwella ymddygiad a phresenoldeb disgyblion

A3 Gwella ansawdd addysgu ac asesu

A4 Monitro a darparu cymorth ar gyfer safonau cyflawniad a lles yn well

A5 Cryfhau effeithiolrwydd ac atebolrwydd arweinwyr ar bob lefel

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon.  Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**

Er bod perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi bod yn wan ac islaw perfformiad ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas o leiaf mewn gwersi. Mae lleiafrif o'r disgyblion hyn yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd cryf ac yn cymhwyso'u dysgu yn effeithiol i gyd-destunau newydd, heriol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac ar farn a safbwyntiau pobl eraill. Mae lleiafrif yn cynnig ymatebion estynedig yn sgil holi gan athrawon. Gwnânt gyfraniadau clir a meddylgar at drafodaethau'r dosbarth a defnyddiant eirfa sy'n benodol i'r pwnc yn hyderus. Mewn astudiaethau crefyddol, er enghraifft, mae disgyblion yn siarad gydag argyhoeddiad am bwysigrwydd amddiffyn hawliau dynol mewn cymdeithas fodern. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn cynnig ymatebion byr, sydd heb eu datblygu'n ddigonol, ac nid ydynt yn datblygu'u medrau siarad yn ddigon da.

Pan fyddant yn darllen, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau defnyddiol yn dda i ganfod a dethol gwybodaeth mewn testunau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn trafod testunau ac yn nodi nodweddion amrywiaeth o genres yn hyderus. Mae ychydig ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu'u medrau darllen uwch. Mae'r disgyblion hyn yn casglu ystyr mewn testun ac yn dod i gasgliadau yn effeithiol, er enghraifft wrth ystyried y ffyrdd y mae'r awdur yn creu naws ac awyrgylch yn 'The Hunger Games.'

Mae tua hanner y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o genres. Maent yn trefnu'u syniadau yn dda ac yn mynegi'u syniadau yn glir. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu gydag ymdeimlad addas o bwrpas a chynulleidfa. Er enghraifft, defnyddiant iaith a thechnegau priodol i ysgrifennu'n ddarbwyllol am y dadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf yn Unol Daleithiau America. Fodd bynnag, nid yw tua hanner y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud camgymeriadau mynych yn eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg.

Mae tua hanner y disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn ychydig bynciau perthnasol ac maent yn gwneud cyfrifiadau sylfaenol yn llwyddiannus. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio graffiau'n addas i ddod i gasgliadau, er enghraifft wrth ddehongli data ar y boblogaeth fyd-eang mewn daearyddiaeth. Mae ychydig ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau'n effeithiol i ddatrys amrywiaeth o broblemau rhifiadol.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol yn gymwys mewn llawer o bynciau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu'r medrau hyn yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Pan geir cyfleoedd, mae disgyblion yn datblygu'u medrau creadigol yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn mynegi eu syniadau dylunio creadigol yn effeithiol wrth weithio gyda thecstilau.

Mae nifer y disgyblion sy'n sefyll cymhwyster mewn Cymraeg wedi amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a dim ond lleiafrif sydd wedi ennill cymhwyster da yn y pwnc yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r duedd o ran perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 wedi gostwng yn sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Ar y cyfan, mae wedi bod ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad allweddol, yn benodol yn nangosyddion lefel 2 gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, ac yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio.

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum TGAU neu gyfwerth, neu fwy, gyda graddau A*-A, wedi cyfateb yn fras i lefelau mewn ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad bechgyn, a merched yn benodol, wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf ac mae ymhell islaw'r cyfartaleddau ar gyfer bechgyn a merched mewn ysgolion tebyg.

Mae deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gostwng dros y pedair blynedd diwethaf ac maent ymhell islaw'r cyfartaleddau ar gyfer y grŵp cyfwerth o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg.

Ar y cyfan, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas gydag amser.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yn 2018, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3 islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach a chanran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-C wedi disgyn yn sylweddol hefyd, ond maent yn parhau uwchlaw'r rheiny mewn ysgolion tebyg. Mae cyfran disgyblion y chweched dosbarth sy'n ennill tair gradd A*-A wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae'n parhau islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys

Mae mwyafrif y disgyblion yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol, yn mwynhau eu gwersi ac yn gadarnhaol am eu dysgu. Maent yn gweithio'n annibynnol ac yn dangos gwydnwch addas. Mae'r disgyblion hyn yn ymroi'n dda i weithgareddau ac yn gwneud cyfraniadau defnyddiol yn y dosbarth, er enghraifft wrth drafod anghyfiawnder Deddfau Jim Crow mewn astudiaethau crefyddol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dibynnu'n drwm ar athrawon a staff cymorth i wneud cynnydd yn eu dysgu.

Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac nid ydynt yn cyfrannu at drafodaethau'r dosbarth. Mae ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn achosi tarfu sylweddol mewn gwersi ac yn effeithio'n negyddol ar gynnydd disgyblion eraill. Mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn dangos diffyg parch ac yn herfeiddiol tuag at staff ac nid ydynt yn dangos y parch a'r gofal priodol tuag at eraill. Nid yw

lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a dywedodd ychydig iawn o ddisgyblion fod ymddygiad ymosodol gan ychydig ddisgyblion yn ystod amser egwyl yn gyffredin. Dywedodd ychydig ddisgyblion eu bod yn dioddef bwlio ac mae lleiafrif o'r farn nad yw'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol â hyn.

Mae cyfraddau'r gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn rhy uchel. Er bod presenoldeb wedi gwella fymryn dros y tair blynedd diwethaf, mae'n parhau ymhell islaw presenoldeb mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae cyfraddau absenoldeb cyson wedi gostwng yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae gan fwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o sut i wneud dewisiadau cadarnhaol o ran diet ac ymarfer corff, ac maent yn gwybod sut i fanteisio ar yr amrywiaeth eang o gyfleoedd mae'r ysgol yn ei darparu i gefnogi ffordd iach o fyw. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n dewis manteisio ar y rhain.

Mae disgybl-arweinwyr pwnc ac aelodau'r cynghorau tai yn cyflawni eu rolau arwain mewn ffordd aeddfed. Mae'r disgyblion hyn yn dechrau dylanwadu ar ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft trwy drafod agweddau ar y cwricwlwm gydag arweinwyr pwnc. Mae disgyblion y chweched dsobarth yn esiamplau da o ymddygiad i ddisgyblion iau, yn enwedig trwy eu gwaith fel swyddogion a mentoriaid cymheiriaid. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud newidiadau o ganlyniad, er enghraifft trwy gynyddu amrywiaeth y gweithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu cynnig. Fel rhan o waith y cyngor ysgol, mae disgyblion wedi gwneud cyfraniad defnyddiol yn ddiweddar at y polisi ymddygiad diwygiedig.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth gadarn am eu pwnc ac mae llawer ohonynt yn meithrin perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda'u disgyblion. Mae llawer o athrawon yn fodelau da o iaith. Maent yn cyfathrebu'n glir ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir i ddisgyblion. Mae'r athrawon hyn yn sefydlu arferion effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn tawelu'n gyflym ac yn barod i ddysgu.

Mae gan leiafrif sylweddol o athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu disgyblion. Maent yn herio disgyblion i feddwl yn ddwfn a datblygu'u medrau dysgu annibynnol yn briodol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn rhoi i ddisgyblion gyfres o weithgareddau sydd wedi'u saernïo'n dda, sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar ei gilydd ac sydd â chysylltiad da â dysgu blaenorol disgyblion. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn gwneud cynnydd buddiol mewn gwersi.

Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio gwersi'n ddigon da i alluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf. Yn y gwersi hyn, nid yw gweithgareddau wedi'u cysylltu'n ddigon da â dysgu blaenorol disgyblion neu nid ydynt yn herio disgyblion yn ddigonol. Mewn ychydig enghreifftiau, nid yw cyfarwyddiadau athrawon yn ddigon clir. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn treulio gormod o amser ar dasgau nad ydynt yn mynnu ymdrech, neu nid ydynt yn deall yn glir sut i wella'u gwaith. Mae hyn yn arwain at ddysgu araf.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da. Yn y gwersi hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu gwaith ac yn tynnu sylw eraill rhag gallu canolbwyntio'n ddigon da ar eu gwaith.

Mae mwyafrif yr athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn addas ac yn cynnig adborth llafar priodol. Defnyddiant dechnegau holi sylfaenol yn dda i fesur gallu disgyblion i adalw dysgu blaenorol. Mae ychydig athrawon yn holi disgyblion yn fedrus ac yn annog disgyblion i ymestyn eu hatebion llafar. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae gormod o athrawon nad ydynt yn procio dealltwriaeth disgyblion yn ddigon da i herio a dwysau eu dysgu.

Yn gyffredinol, mae ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion yn amrywio’n ormodol, o fewn ac ar draws adrannau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn rhoi sylwadau gwerthfawr a thasgau dilynol i ddisgyblion, sy’n dangos yn eglur sut y gallant wella’u gwaith. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw adborth ysgrifenedig yn cael digon o effaith ar ddysgu disgyblion gan nad yw sylwadau mwyafrif yr athrawon yn ddigon manwl neu nid ydynt yn galw ar y disgyblion i ymateb yn bwrpasol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn adeiladu’n briodol ar brofiadau dysgu blaenorol disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, mae arweinwyr yr ysgol yn cynllunio’r cwricwlwm yn effeithiol i fodloni anghenion a dyheadau addysgol disgyblion. Mae’r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau galwedigaethol buddiol, gan gynnwys peirianneg, weldio, trin gwallt a harddwch, gofal cŵn ac amaeth, sy’n ateb anghenion a diddordebau disgyblion yn dda. Mae gwaith gwerthfawr yr ysgol mewn partneriaeth â’r coleg lleol ac ysgolion eraill yn golygu bod ystod helaeth o gymwysterau academaidd a galwedigaethol ar gael yn y chweched dosbarth.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ymestyn y cwricwlwm, fel y clwb drama poblogaidd, Gwobr Dug Caeredin ac amrywiaeth o glybiau chwaraeon. Yn ogystal, mae ymweliadau addysgol lleol a thramor yn cyfrannu’n effeithiol at brofiadau dysgu’r disgyblion. Er enghraifft, aeth disgyblion ar ymweliad â Llundain i weld y darn arddangos ‘Lord of the Flies’ a grëwyd ganddynt fel rhan o brosiect yr Ysgolion Arweiniol Creadigol, a arddangoswyd yn Oriel Tate. Mae’r ysgol yn cynnig gweithgareddau buddiol i ddisgyblion mwy abl, trwy weithgareddau fel ymweliadau â phrifysgolion, rhwydweithiau ‘Seren’ a ‘Seren Fach’, a’r rhaglen ‘Brilliant Scholars’.

Mae’r ysgol yn cynnig darpariaeth addas ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae llawer o feysydd pwnc yn rhoi ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion wella’u medrau llythrennedd ac mae llyfrgell yr ysgol yn cynnig cymorth gwerthfawr i ddisgyblion a staff wrth hyrwyddo darllen annibynnol a llythrennedd ar draws yr ysgol.

Er bod gweithgareddau i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion mewn gwersi heblaw am fathemateg yn briodol mewn ychydig feysydd pwnc perthnasol, yn aml, nid yw’r rhain yn ddigon heriol.

Mae’r ysgol yn nodi’r disgyblion hynny â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach ac mae’n cynnig strategaethau ymyrryd priodol i gefnogi’u dysgu. Mae’r rhain yn cynnig cymorth buddiol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd addas i wella’u dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy gymryd rhan yn yr Urdd, y Fenter Iaith ac

ymweliadau â Glan-llyn. Mae'r ysgol yn rhoi cymorth addas i athrawon wella'r amrywiaeth o gyfleoedd i ddefnyddio'u medrau Cymraeg y tu hwnt i wersi Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r effaith ar gyflawniadau disgyblion mewn Cymraeg gydag amser yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol wedi nodi amrywiaeth addas o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau TGCh. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd cefnogol i fwyafrif ei disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi cyngor ac arweiniad priodol i ddisgyblion i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dewisiadau dysgu a gyrfa yn y dyfodol. Mae'n cynnig gwybodaeth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion am opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cynhyrchiol o gysylltiadau â phrifysgolion a chyflogwyr lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynnig profiadau buddiol i ddisgyblion, sy'n eu helpu i baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd fel oedolyn.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth briodol o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys ymweliadau addysgol. Mae'r cwricwlwm yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran bwyta, yfed a ffyrdd iach o fyw yn dda. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r defnydd diogel ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i ddatblygu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae sesiynau mentor dyddiol yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion drafod agweddau pwysig fel goddefgarwch a pharchu amrywiaeth. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o bartneriaethau cryf ag amrywiaeth o asiantaethau, fel yr heddlu, mudiadau iechyd a mudiadau elusennol, i ehangu'r cwricwlwm. Mae trefniadau'r ysgol i ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol disgyblion yn addas; fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chyflwyno'n anghyson.

Mae gan yr ysgol systemau priodol i gofnodi cyrhaeddiad disgyblion mewn pynciau unigol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r rhain yn addas i nodi disgyblion sy'n tangyflawni, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae trefniadau'r ysgol i fonitro cynnydd disgyblion yn aneffeithiol, gan nad ydynt wedi llwyddo i sicrhau deilliannau digon cryf ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, dros gyfnod.

Mae gan yr ysgol systemau addas i gofnodi agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac enghreifftiau o ymddygiad gwael mewn gwersi. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o'r adroddiadau hyn i wobrwyo a chanmol disgyblion sy'n ymddwyn yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi monitro nac ymateb yn ddigon trylwyr i ymddygiad gwael disgyblion er mwyn lleihau ymddygiad negyddol ac aflonyddol lleiafrif o ddisgyblion gydag amser.

Mae prosesau'r ysgol i fonitro presenoldeb a strategaethau gwella presenoldeb wedi cael effaith gyfyngedig dros gyfnod.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac wedi'i threfnu'n dda. Mae cynlluniau datblygu unigol (CDUau) disgyblion yn briodol

ac mae gan y mwyafrif ohonynt dargedau perthnasol. Ar y cyfan, mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys strategaethau synhwyrol i hyrwyddo dysgu'r disgyblion a chânt eu rhannu'n dda gyda staff, er enghraifft drwy broffiliau'r 'Portread Ysgrifenedig'. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o athrawon sy'n defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol yn eu haddysgu a'u cynllunio.

Mae staff yn cynnig cymorth gwerthfawr i ddisgyblion agored i niwed yn y ddarpariaeth yn Aberllydan ac i'r disgyblion hynny â medrau gwan yn y Ganolfan Ddysgu Arbennig. Cynigiant amrywiaeth eang o raglenni ymyrryd defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, eu hiechyd emosiynol a'u medrau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau i werthuso effaith y rhaglenni hyn a'r cynnydd a wna disgyblion yn ddigonol.

Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau dysgu i ddisgyblion sydd ar y sbectrwm awtistig. Mae staff yn eu cefnogi'n dda yn y ganolfan ac mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae hyn yn golygu bod bron pob un o'r disgyblion hyn yn gallu manteisio ar yr ystod gyfan o brofiadau dysgu.

Mae adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol. Maent yn cynnwys sylwadau clir am gynnydd unigol a thargedau ar gyfer gwella sy'n benodol i bwnc.

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn ar y cyfan, er nad yw trefniadau ar gyfer delio â bwlio ac ymddygiad gwael yn ddigon trylwyr.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Bu penodi'r pennaeth newydd ym Medi 2017 yn sbardun ar gyfer newid yn yr ysgol. Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae'r pennaeth wedi rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol ac wedi rheoli'r pontio o safle'r hen ysgol i'r adeilad newydd yn llwyddiannus. Hefyd, ailstrwythurodd yr uwch dîm arwain i ddarparu mwy o allu i annog gwelliant. Mae'r pennaeth yn gweithio'n dda gyda chymuned yr ysgol a'r tîm arwain newydd i ddatblygu diwylliant yr ysgol yn gadarnhaol. Rhannwyd y weledigaeth hon o ddisgwyliadau uchel ar gyfer safonau ac ymddygiad yn briodol gyda staff, disgyblion a rhieni.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r pennaeth wedi adolygu strwythur staffio'r ysgol gyfan yn drylwyr. Mae hi wedi diwygio strwythur y staff cymorth yn briodol ac wedi ehangu'r uwch dîm arwain yn addas ar gyfer cyfnod cychwynnol o ddwy flynedd. Mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn glir. Mae holl aelodau'r tîm yn rhannu cyfrifoldeb cyffredin i ganolbwyntio ar godi safonau disgyblion. Fodd bynnag, gydag amser, nid yw arweinwyr yn yr ysgol wedi sicrhau gwelliannau parhaus na digonol mewn meysydd pwysig o waith yr ysgol, fel deilliannau disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, ansawdd yr addysg, ymddygiad a phresenoldeb.

Ar y cyfan, mae gormod o amrywiaeth yn safon ac effeithiolrwydd arweinwyr y cwricwlwm. Mae gan leiafrif o'r arweinwyr hyn fedrau arwain cymwys, ond mae ychydig agweddau pwysig ar eu rôl yn llai eglur i eraill.

Mae gan yr ysgol strwythur rheoli llinell clir, gydag amserlen o gyfarfodydd rheolaidd. Mewn lleiafrif o enghreifftiau, nid yw cyfarfodydd yn canolbwyntio'n ddigon da ar faterion strategol, fel gwella ansawdd yr addysgu, diwallu blaenoriaethau

cenedlaethol a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Mae uwch arweinwyr, wedi'u cefnogi'n effeithiol gan y pennaeth, yn dechrau dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn briodol.

Mae strwythurau rheoli perfformiad yn briodol ac mae targedau'n cyd-fynd yn addas ag amcanion ysgol gyfan. Mewn ychydig enghreifftiau, nid yw targedau ar gyfer gwella dysgu ac addysgu yn ddigon penodol. Mae uwch arweinwyr yn dechrau delio'n addas â thanberfformiad.

Gydag amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi rhoi digon o her i'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r pennaeth bellach yn hysbysu'r corff llywodraethol yn dda ac mae ganddo ddealltwriaeth gadarn erbyn hyn o gyd-destun yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn deall cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, ac maent yn prysur ddatblygu diwylliant o gymorth a her drylwyr. Maent yn dechrau herio arweinwyr y cwricwlwm yn effeithiol, yn enwedig o ran deilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Nid yw gwaith hunanwerthuso'r ysgol a'i chynllunio ar gyfer gwella wedi cael digon o effaith ar les dysgwyr nac ar safon eu gwaith gydag amser. Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae hunanwerthusiad yr uwch arweinwyr o'r ysgol gyfan yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr a gwerthfawr o waith yr ysgol. Mae trefniadau hunanwerthuso'r ysgol, sydd wedi gwella'n ddiweddar, yn manteisio ar ystod briodol o dystiolaeth. Mae tua hanner arweinwyr y cwricwlwm yn asesu perfformiad yn eu meysydd yn dda. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw gwerthusiadau'r ysgol o safonau disgyblion, addysgu ac asesu yn ddigon gwerthusol ac maent yn rhy hael. Mae gwerthusiad arweinwyr bugeiliol o effeithiolrwydd eu gwaith yn fwy cyfyngedig ac, o ganlyniad, nid eir i'r afael yn ddigon cyflym â meysydd pwysig i'w datblygu, fel ymddygiad a phresenoldeb. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn briodol o uchelgeisiol. Mae'n nodi'r blaenoriaethau cywir, yn neilltuo cyfrifoldebau yn glir ac yn gosod amserlenni priodol ar gyfer cyrraedd targedau.

Mae llawer o athrawon a staff cymorth yn cymryd rhan yn bwrpasol mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae gweithgareddau datblygu proffesiynol ysgol gyfan yn mynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau'r ysgol. Mae llawer o athrawon wedi cymryd rhan mewn prosiectau buddiol yn yr ysgol i wella profiadau'r disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon Saesneg wedi datblygu strategaethau llwyddiannus i wella diddordeb bechgyn Blwyddyn 10 mewn llenyddiaeth. Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau allanol i ddatblygu arfer broffesiynol ar draws yr ysgol. Nid yw dysgu proffesiynol i gefnogi arweinwyr canol yn ddigon cynhwysfawr ac nid yw ychydig athrawon yn ymroi'n ddigon da i gyfleoedd dysgu proffesiynol a gwella ansawdd. Ar y cyfan, nid yw cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi cael digon o effaith ar ddeilliannau i ddysgwyr gydag amser.

Mae'r rheolwr busnes, ynghyd â'r pennaeth a'r corff llywodraethol, yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus ac wedi sicrhau bod gan yr ysgol gyllideb dros ben. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n gadarn â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n addas i gyflwyno'r cwricwlwm. Nid yw'r ysgol wedi defnyddio'i Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar safonau disgyblion. Mae'r deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 4 wedi gostwng dros y pedair blynedd diwethaf ac maent ymhell islaw'r deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn mewn ysgolion tebyg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 201X: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2019